



**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Llyfrgell Genedlaethol Cymru Penodi Is-lywydd

Dyddiad cau: 12 Mawrth 2019



**The Commissioner for
Public Appointments**

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A: Rôl a chyfrifoldebau Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru	5
Rôl yr holl ymddiriedolwyr	5
Rôl yr is-lywydd	6
Atodiad B: Cefndir – Llyfrgell Genedlaethol Cymru	9
Atodiad C: Y broses ddethol	11

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb ynglŷn â phenodi is-lywydd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel is-lywydd, gallwch ddylanwadu ar gyfeiriad strategol y llyfrgell a chyfrannu at bolisiau a fydd yn fanteisiol i'r llyfrgell yn y tymor byr a hir. Mae'r atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr is-lywydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac amlinelliad o'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

<https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-74c8e117983d/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag 'Is-lywydd – Llyfrgell Genedlaethol Cymru' ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif cofrestredig.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i 1) amlinellu eich diddordeb yn y rôl, 2) dangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a restrir ym manyleb y person, a 3) amlinellu sut y gallech gyfrannu at waith y llyfrgell. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf (a rennir yn 'arbenigedd hanfodol' a 'sgiliau personol hanfodol'), ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Curriculum vitae

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	12 Mawrth 2019
Llunio'r rhestr fer	Dechrau Ebrill
Cyfweliadau:	30 Ebrill 2019

Datganiad am amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cefnogaeth i ateb gofynion unigolion yn ôl y gofyn yn ystod y broses asesu. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol, yn yr un modd, wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhopeth a wna a bydd yn cadw mewn cysylltiad clos â'r aelodau a benodir i sicrhau bod cefnogaeth addas yn cael ei rhoi iddynt dros gyfnod eu penodiad. Gallai hynny gynnwys cefnogaeth fel cael cyfrannu at gyfarfodydd y bwrdd trwy fideogynadleda a chael defnyddio meddalwedd arbenigol er enghraifft.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech drefnu ymweld â'r Llyfrgell, cysylltwch â Carol Edwards trwy ffonio (01970) 632923 neu drwy anfon neges e-bost at: carol.edwards@llgc.org.uk.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, anfonwch neges e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes angen help arnoch chi i ddefnyddio'r system ymgeisio 'Appoint' ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau (sharedservicehelpdesk@gov.wales) 03000 255454.

Atodiad A

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rôl a chyfrifoldebau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Diben

Diben Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw gwneud ein diwylliant a'n treftadaeth amrywiol yn hygyrch i bawb at ddibenion dysgu, ymchwil a mwynhau.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Llyfrgell yn derbyn oddeutu £10 miliwn mewn cyllid refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Llyfrgell hefyd yn gorff Siarter Frenhinol ac yn elusen annibynnol gofrestrdig. Mae'r gwaith o'i rheoli a'i gweithrediadau yn cael eu goruchwyllo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae'r Llyfrgell yn rhan o bolisiau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n integreiddio ei gwaith i gefnogi pob un o'r saith nod llesiant, yn ogystal â phum elfen lywodraethu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiben, gweledigaeth ac amcanion y Llyfrgell, cliciwch ar ei dolen isod:

https://www.library.wales/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/dogfennaeth_gorfforaethol/2017-2021_Strategic_Plan_FINAL.pdf

Rôl yr HOLL ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn darparu arweiniad a llywodraethu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae'n cyflawni'r ddyletswydd bwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau'r Llyfrgell.

Mae'r holl ymddiriedolwyr yn rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am benderfyniadau'r bwrdd. Rôl y bwrdd yw arwain yn effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion heriol. Mae'r bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n sicrhau bod gweithgareddau'r Llyfrgell yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, ac mae'n monitro perfformiad i sicrhau bod y Llyfrgell yn bodloni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad yn llawn.

Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestrdig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod ymddiriedolwyr yn gyfrifol yn unigol ac ar y cyd i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.

Mae'r bwrdd yn cynnwys hyd at 15 o aelodau, gan gynnwys y llywydd, sef Rhodri Glyn Thomas ar hyn o bryd. Mae wyth yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell. Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnwys tri swyddog y bwrdd – sef y llywydd, yr is-lywydd a'r trysorydd. Mae'r llywydd a'r is-lywydd yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r trysorydd yn cael ei benodi gan y Llyfrgell ei hun.

Er mai'r bwrdd sy'n gyfrifol am bopeth mae'r llyfrgell yn ei wneud yn y pen draw, y prif weithredwr a llyfrgellydd sy'n gyfrifol i'r ymddiriedolwyr am reoli'r sefydliad yn weithredol o ddydd i ddydd.

Rôl yr is-lywydd

- Bydd yr is-lywydd yn cynorthwyo'r llywydd wrth arwain cyfeiriad cyffredinol y bwrdd, ac yn ymgymryd â rolau'r llywydd os yw ef/hi yn absennol.
- Cadeirio pwyllgorau eraill y llyfrgell yn absenoldeb y cadeirydd a benodwyd.
- Ynghyd â'r cadeirydd, gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y bwrdd a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, a swyddogion y llywodraeth.
- Cysylltu â swyddogion eraill ac aelodau'r bwrdd fel y bo angen, yn ogystal â rhai'r tîm gweithredol. Wrth wneud hynny, craffu ar, herio a chefnogi'r weithrediaeth i gyflawni nodau, amcanion a thargedau'r llyfrgell.
- Cymryd rhan yn y broses cynllunio corfforaethol, gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau cyllideb blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol.
- Cynrychioli'r llyfrgell yn ei gweithrediadau gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo buddion y sector treftadaeth diwylliannol amrywiol yn weithredol o fewn Cymru a thu hwnt.
- Bod â dealltwriaeth glir o ran sut gall y llyfrgell barhau i gyfrannu fel prif ddarparwr polisi treftadaeth ddiwylliannol y llywodraeth.
- Bod â dealltwriaeth o sut mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n gweithredu.
- Cyfrannu'n weithredol i annog aelodaeth o'r bwrdd a'r genhedlaeth nesaf o ymddiriedolwyr.
- Sicrhau bod y llyfrgell yn ennill gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau, rheoleidd-dra a phriodoldeb.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o gywirdeb a chyllid cyhoeddus.
- Bod yn wleidyddol annibynnol.
- Penodi, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, prif weithredwr, pe bai angen gwneud hynny.
- Meddu ar ddealltwriaeth eglur o "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan a bod yn ymrwymedig iddynt.

Manyleb y person

- Y gallu i arwain a chefnogi bwrdd gweithredol a chefnogi'r gwaith o arwain sefydliad proffil uchel, y gallu i ddarparu arweiniad strategol, a meddu ar y gallu i adeiladu cydberthnasau cryf.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog, gan gynnwys y gallu i weithredu'n effeithiol fel cenhadwr ar gyfer y llyfrgell, gan arddangos tact a thringarwch wrth ymdrin â rhanddeiliaid.

- Dealltwriaeth o rôl ddeuol y llyfrgell fel elusen fawr a Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn unol â dealltwriaeth o fywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu da.
- Y gallu i feddwl yn rhesymegol ac yn wrthrychol, a dadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn nodi materion allweddol a gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Ymrwymiad a brwdfrydedd o ran gwaith y llyfrgell, ynghyd â dealltwriaeth o'r sector diwylliannol amrywiol yn ei gyfanrwydd. Disgrifiwch sut yr ydych yn bodloni'r maen prawf hwn.
- Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol Cymru ac ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb.

Y Gymraeg

Mae swydd yr is-lywydd yn swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, ar y lefel a nodir isod:

Dealltwriaeth – y gallu i ddeall sgysiau sylfaenol am bynciau bob dydd.

Darllen – y gallu i ddarllen deunydd syml am bynciau pob dydd a'i ddeall.

Siarad – y gallu i gyfrannu at sgysiau syml sy'n ymwneud â'r gwaith.

Ysgrifennu – dim sgiliau.

Y Gymraeg

Mae'r llyfrgell yn sefydliad dwyieithog drwyddi draw sy'n darparu ei gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynnal ei pherthnasau mewnol ac allanol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cymraeg yw iaith gwaith y rhan fwyaf o staff y llyfrgell a dyma'r iaith a ddefnyddir ar gyfer llawer o'i phrosesau mewnol. Mae'n bolisi i brif noddwr y llyfrgell, Llywodraeth Cymru, gefnogi'r iaith Gymraeg, a nod ei Strategaeth Iaith - Gymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr yw hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Ymrwymiad amser a chyfarfodydd y bwrdd

Yr ymrwymiad amser ar gyfer y rôl is-lywydd yw hyd at 18 diwrnod y flwyddyn, sy'n cynnwys mynychu pum cyfarfod bob blwyddyn.

Telerau penodi

Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon fydd yn penodi, ar ran Llywodraeth Cymru.

Taliad cydnabyddiaeth

Nid oes taliad ar gyfer swydd yr is-lywydd na holl ymddiriedolwyr y bwrdd. Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill sy'n deillio o wneud gwaith ar y bwrdd gan y llyfrgell.

Dyddiad dechrau disgwylidig y swydd: 1 Gorffennaf 2019

Cymorth ar gyfer aelodau anabl

Lle bo'n briodol, gwneir pob addasiad rhesymol i alluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn arbennig, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan p'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a fyddai'n peri embaras iddynt eu hunain neu Lywodraeth Cymru pe bai'n dod i'r amlwg yn ystod eu penodiad.

O dan ddarpariaethau Siartr Frenhinol 2006, nid yw'r rhai sydd wedi bod yn ymddiriedolwyr blaenorol i'r llyfrgell yn gymwys i wneud cais nes bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers diwedd eu tymor.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr y llyfrgell yn swydd sy'n eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl hon.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu. Gallwch weld y ddogfen hon yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments>

Atodiad B

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Cefndir

Prif lyfrgell ac archif Cymru yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth enfawr ac yn drysorlys ar gyfer pob math o bwnc, a gynigir yn rhad ac am ddim i bawb, ac mae'n storfa fyw o ddiwylliannau cofnodedig Cymru. Mewn gwirionedd, mae ganddi ddau ddimensiwn – adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau argraffiedig, llawysgrifol, gweledol a chlywedol, a llyfrgell ar-lein sydd ar gael trwy'r we.

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y llyfrgell') gan Siarter Frenhinol ar 9 Mawrth 1907. Rhoddwyd Siarteri Atodol yn 1911 ac yn 1978, gyda rhai mân ddiwygiadau cyfansoddol. Ar 19 Gorffennaf 2006, rhoddwyd Siarter Atodol newydd gan y Frenhines Elizabeth II. Newidiwyd cyfansoddiad a system lywodraethu'r llyfrgell yn sylweddol gan Siarter Atodol 2006, a oedd yn cydnabod datganoli'r llywodraeth o San Steffan i Gymru. Roedd Llys Llywodraethwyr a chyngor gan y llyfrgell yn y gorffennol, ond bellach mae ganddi Fwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae'r llyfrgell hefyd yn elusen gofrestredig (rhif cofrestru: 525775) ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Oherwydd hyn, mae'n rhaid iddi weithredu fel: (a) sefydliad Siarter Frenhinol ac Elusen Gofrestredig, a (b) Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r natur ddeuol hon yn llywodraethu sut mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau, ac mae'n gofyn am gydbwysedd cyson rhwng dilyn a chyflawni (a) dibenion ei siarter a'i statws elusennol, sy'n adlewyrchu diben ei sefydlu, a (b) egwyddorion llywodraeth hyd braich. Mae dogfen fframwaith a luniwyd gan MALD: Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn 2010, mewn ymgynghoriad gyda'r llyfrgell, yn amlinellu manylion y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cymorth grant a ddarperir gan Weinidogion Cymru i'r llyfrgell.

Ar hyn o bryd, mae'r llyfrgell yn cyflogi oddeutu 230 aelod o staff. Yn 2017/18, bydd yn derbyn cymorth grant o tua £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

Prif 'swyddogaeth' y llyfrgell, fel y mae Siarter Atodol 2006 yn ei nodi, yw:

Casglu, cadw a rhoi mynediad at bob math a ffurf o wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a'r Cymry a phobl Geltaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu.

Caiff cyfrifoldebau'r llyfrgell a'i gweithgareddau cysylltiedig eu mynegi orau fel pump 'swyddogaeth graidd', y mae llawer o agweddau yn ymwneud â phob un:

- Casglu
- Cadw
- Rhoi mynediad a gwybodaeth
- Cyhoeddi a dehongli
- Cydweithio proffesiynol (yn enwedig gyda llyfrgelloedd ac archifau ar draws Cymru, a hefyd Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Yng nghanol y llyfrgell mae ei chasgliadau eang ac amrywiol, y mae rhai ohonynt wedi eu cofrestru yng nghofrestr Cof y Byd UNESCO:

- Gwaith argraffedig: llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd a deunydd argraffedig arall sy'n dod i oddeutu 6 miliwn o gyfrolau. Mae'n llyfrgell 'adnau cyfreithiol' (un o ddim ond chwech yn y DU ac Iwerddon) sydd yn casglu cyfran uchel o holl gyhoeddiadau argraffedig y DU ac Iwerddon, y mae rhai ohonynt bellach ar ffurf electronig.
- Llawysgrifau: 30,000 o eitemau, yr hynaf o ad 113, sy'n cynnwys llenyddiaeth gynharaf Cymru a thestunau Prydeinig ac Ewropeaidd cynnar.
- Archifau: 15km, 2,500 o gasgliadau, gan gynnwys Archif Gwleidyddol Cymru, cofnodion ystadau, cofnodion Llys y Sesiwn Fawr a'r Eglwys yng Nghymru, yr holl ewyllysiau a brofwyd yn esgobaethau Cymru cyn 1858, papurau llenyddiaeth fodern, ac archifau sefydliadau a busnesau Cymru.
- Mapiau: dros 1.5 miliwn, a miloedd o atlasau.
- Lluniau: 50,000 o weithiau sy'n dogfennu Cymru, yn bennaf drwy dirluniau a phortreadau.
- Ffotograffau: 950,000 o argraffiadau, negatifau a thryloywluniau – y casgliad mwyaf yng Nghymru.
- Microffurfiau: e.e. o bapurau newydd, archifau a ffynonellau hanes teuluol.
- Sŵn a delweddau symudol: 7 miliwn troedfedd o ffilm, 300,000 awr o fideo, 250,000 awr o gofnodion sain, 200,000 o eitemau gan archif ITV Cymru, a miloedd o recordiau a thapiau, pob un wedi'i gynnal a'i gadw gan Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.
- Deunydd electronig: miliynau o wrthrychau digidol, gan gynnwys CD-ROMs, e-lyfrau, e-gyfnodolion, gwefannau, archifau electronig ac eitemau wedi'u digido.

Atodiad C

Y broses ddethol

1. Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.
2. Dyma fydd aelodau'r panel dethol::

Peter Owen (Cadeirydd y Panel a Swyddog yn Llywodraeth Cymru)
Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)
Mai Parry Roberts (Aelod Annibynnol o'r Panel)
3. Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol mewn sefyllfa fel hon efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.
4. Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn dechrau mis Ebrill pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ar 30 Ebrill 2019.
5. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf sydd wedi dangos ym marn y panel eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.
6. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.
7. Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
8. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.
9. Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymell i weinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfodydd. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad terfynol i

benodi. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

10. Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Is-lywydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

11. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

12. Os oes gennych gwestiynau am eich cais, anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn hollol fodlon

13. Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru